



Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe

# Cynllun Strategol

2023 – 2026





# Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe

Cydlynir darpariaeth addysg oedolion yn Abertawe gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe (ALPS). Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, darperir addysg oedolion gan wasanaeth Dysgu Gydol Oes y cyngor ac Addysg Oedolion Cymru. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn darparu rhaglen o gyrsiau i oedolion a addysgir gan ddefnyddio cyllid AB rhan-amser. Mae'r bartneriaeth yn dod ag amrywiaeth o sefydliadau eraill sy'n darparu addysg oedolion at ei gilydd gan gynnwys Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Dysgu Cymraeg - Ardal Bae Abertawe, sef y darparwr cyfansoddol lleol o gyrsiau Cymraeg i oedolion dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae'r bartneriaeth yn darparu cyrsiau ar draws amrywiaeth eang o sectorau. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn gyrsiau ESOL ac Addysg Sylfaenol i Oedolion. Mae darpariaeth sylfaenol hefyd ar gyfer y celfyddydau gweledol a chreadigol a gynigir gan wasanaeth Dysgu Gydol Oes y cyngor a'r Coleg. Mae Dysgu Cymraeg Cymru yn darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, ynghyd â Choleg Gŵyr Abertawe ac mae partneriaid Addysg Uwch yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd amser llawn a rhan-amser i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig.

Mae tua 240,000 o bobl yn byw yn Ninas a Sir Abertawe ac mae gan y sir ddwysedd poblogaeth o 632 fesul cilometr sgwâr. Mae tua 41,600 o'r boblogaeth bresennol o dan 16 oed (17%) ac mae tua 48,900 yn 65 oed neu hŷn (20%). Daw tua 6% o boblogaeth Abertawe o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn. Mae 11% o boblogaeth Abertawe yn gallu siarad Cymraeg.

Mae 77% o boblogaeth oedran gweithio Abertawe yn economaidd weithgar. Mae 87% ohonynt yn gweithio yn y sectorau gwasanaethu, gan gynnwys 29% yn y sector cyhoeddus. Mae 62% o bobl 16-64 oed wedi cwblhau addysg hyd at Lefel 3 (o gymharu â chyfartaledd Cymru sef 58%). Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae 11.5% o ardaloedd lleol Abertawe ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.





## Cynllun Strategol Partneriaeth Dysgu Oedolion Abertawe (ALPS)

### Ysgogwyr Strategol

Mae darparu addysg oedolion yn Abertawe yn nod strategol allweddol a rennir gan yr holl sefydliadau partner, ac sy'n cael ei lywio gan nodau ac amcanion ehangach ar gyfer addysg oedolion ledled Cymru. Datblygwyd y cynllun hwn yn seiliedig ar yr ysgogwyr strategol canlynol:

- Addysg Oedolion yng Nghymru 2017
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23
- Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru
- Fframwaith Strategol Digidol 2030 Llywodraeth Cymru
- Egwyddorion Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer cyrff cyhoeddus
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys y saith nod lles cysylltiedig ar gyfer Cymru (gweler y llun).

O ystyried y blaenoriaethau strategol rhanbarthol a lleol ar gyfer addysg oedolion yn Abertawe, mae'r cynllun hwn hefyd yn seiliedig ar yr ysgogwyr strategol canlynol:

- **Dinas Dysg UNESCO**

Dynodwyd Abertawe yn Ddinas Dysg UNESCO yn 2015 - ac mae'n parhau i fod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang UNESCO o Ddinasoedd sy'n Dysgu er mwyn creu diwylliant o ddysgu gydol oes ledled y rhanbarth.

- **Dinas Hawliau Dynol – Protocol 1, Erthygl 2 (Hawl i dderbyn addysg)**

Abertawe yw Dinas Hawliau Dynol gyntaf Cymru lle mae pawb yn cyfrif ac mae'r hawliau a nodwyd gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cynnwys yr hawl i dderbyn addysg.

- **Dinas Noddfa – cyfle ar gyfer dysgu gydol oes**

Abertawe yw Dinas Noddfa gyntaf Cymru, lle rydym yn ymdrechu i gynnig noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel, trais neu erledigaeth gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

- **Amcanion Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**

Cynhaliodd ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Aseiad o Les Lleol a nodwyd amcanion allweddol a gweithredoedd trawsbynciol i wella lles pobl Abertawe. Ystyrir dysgu yn llinyn pwysig trwy'r gwaith hwn.

Yn ogystal, mae pob sefydliad partner yn ymrwymedig i flaenoriaethau a nodau strategol ei fusnes ac yn sicrhau bod addysg oedolion yn cyd-fynd â'i bolisiau, ei amcanion a'i ganlyniadau perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r heriau ehangach sy'n wynebu pobl yn Abertawe megis:

- Iechyd a lles corfforol ac emosiynol
- Gwydnwch cymunedol a chydlyniant cymdeithasol
- Adfywio a thrawsnewid economaidd
- Effeithiau tlodi a'r argyfwng costau byw
- Newid yn yr hinsawdd a'r targedau ar gyfer cyflawni Sero Net.



## Gweledigaeth

### Ymgysylltu, Ysbrydoli, Grymuso

Fel aelod o Rwydwaith Byd-eang UNESCO o ddinasoedd sy'n Dysgu byddwn yn ymgysylltu, ysbrydoli a grymuso oedolion trwy addysg gydol oes, i greu diwylliant o uchelgais a llwyddiant, gan feithrin ffyniant personol a thrawsnewid cymunedol.

## Cenhadaeth

Darparu addysg hygyrch o ansawdd uchel o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu sy'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddysgwyr sy'n oedolion gyrraedd eu dyheadau personol a phroffesiynol.

Mae'r bartneriaeth yn ymrwymedig i ddarparu gwerth am arian, profiadau dysgu diddorol sy'n gwella sgiliau, bywydau a lles oedolion ledled Dinas a Sir Abertawe.

Trwy gydweithio, ein nod yw cynnig cyfleoedd dilyniant a chyflogaeth pellach, gan feithrin unigolion hapusach, mwy cyflogadwy a gwydn wrth gynnal diwylliant o ddysgu gydol oes ar gyfer cynaliadwyedd ein cymuned.

## Gwerthoedd

- **Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn:** Rydym yn blaenoriaethu anghenion, nodau a dyheadau pob unigolyn, gan deilwra ein gwasanaethau addysgol i rymuso dysgwyr ar eu taith unigryw.
- **Cynwysoldeb:** Rydym yn creu amgylcheddau dysgu croesawgar, cynhwysol a diogel lle mae pob unigolyn yn cael ymdeimlad o "berthyn" gan ei alluogi i ffynnu a llwyddo.
- **Hygyrchedd:** Rydym yn ymrwymedig i ddileu rhwystrau i addysg, ei gwneud yn hygyrch i bawb a darparu llwybrau clir ar gyfer dysgu a dilyniant parhaus.
- **Cydweithio:** Rydym yn ymrwymedig i gydweithio â'n dysgwyr a'n partneriaid i wireddu ein cenhadaeth a'n gweledigaeth, gan feithrin cymuned o nodau a chyflawniadau cyffredin.
- **Uniondeb:** Rydym yn cynnal y safonau uchaf o uniondeb, gonestrwydd a thryloywder yn ein holl weithredoedd, gan sicrhau ymddiriedaeth ac atebolrwydd yn ein cysylltiadau a'n gweithrediadau.

# 1

## Nod Strategol 1

Cydweithio i ddarparu cwricwlwm priodol, ymatebol a chydgyssylltiedig sy'n ateb anghenion unigol, lleol a chenedlaethol.

Byddwn yn:

- cynnwys dysgwyr wrth ddatblygu'r bartneriaeth ac wrth wneud penderfyniadau
- datblygu a chyfeirio llwybrau dilyniant clir rhwng ac o fewn pob darparwr
- dathlu llwyddiant dysgwyr
- ehangu'r cyfleoedd ar gyfer addysg oedolion yn y gymuned yn ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg mewn ymatebion i ddewis y dysgwr
- sefydlu Grŵp Llywio Dwyieithog ar gyfer y Bartneriaeth i helpu i siapio a llywio'r agenda ddwyieithog.

# 2

## Nod Strategol 2

Hyrwyddo a dathlu diwylliant o welliant parhaus a rhannu arferion gorau.

Byddwn yn:

- sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei gynnwys ym mhob rhaglen er mwyn gwerthuso, llunio a gwella'r ddarpariaeth
- nodi a rhannu arferion gorau mewn addysgu i wella'r profiadau dysgu i ddysgwyr yn barhaus
- datblygu dull cyffredin o gasglu a monitro data
- hyrwyddo cyfleoedd traws-bartneriaeth ar gyfer dysgu proffesiynol.



# 3

## Nod Strategol 3

Darparu cwricwlwm sy'n hyrwyddo grymuso dysgwyr ac sy'n gwella sgiliau dysgwyr yn Abertawe

Byddwn yn:

- blaenoriaethu datblygiad llythrennedd, sgiliau iaith, rhifedd a llythrennedd digidol ar bob lefel ac ym mhob gweithgaredd
- hyrwyddo cyfleoedd dwyieithog a datblygiad sgiliau iaith Gymraeg
- hyrwyddo datblygiad cyflogadwyedd a sgiliau bywyd er mwyn rhoi hyder a llwybrau i gyflogaeth
- darparu cyngor ac arweiniad priodol sy'n hyrwyddo dilyniant i gyflogaeth a dysgu gydol oes
- darparu lle a chyfle ar gyfer meddwl yn arloesol.

# 4

## Nod Strategol 4

Sefydlu ymagwedd gydlynol, ymatebol at iechyd a lles.

Byddwn yn:

- creu amgylchedd dysgu diogel lle gall dysgwyr ffynnu a magu hyder ynddynt eu hunain ac eraill
- cydnabod a hyrwyddo manteision ryngweithio cymdeithasol trwy ddysgu
- gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid eraill i ddarparu ymyrraeth amserol sy'n dileu rhwystrau i ddysgu ac yn atal anghenion rhag gwaethygu
- hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol, amrywiol, teg a chroesawgar ar gyfer dysgu a bywyd
- darparu gofal a chymorth amserol effeithiol i bob dysgwr.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i  
<https://learningswansea.wales/>

Darparwyd y lluniau yn garedig gan Gyngor Abertawe ac Addysg Oedolion Cymru.